Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

| Eitem | Dyddiad | |
|---|---|---|
| 37.7 | 04/12/2023 | |
| Teitl | | Er |
| Ailsefydlu Ffoaduriaid a Gwasgaru Ceiswyr Lloches | | *Gwybodaeth* |
| Crynodeb o'r Materion | | |

Mae'r is-grŵp Ailsefydlu Ffoaduriaid yn parhau i gwrdd bob chwarter, ac mae amrywiaeth o bartneriaid BGC a phartneriaid perthnasol eraill yn mynychu. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU i gefnogi pobl Wcráin am 12 mis, Affghaniaid am 3 blynedd a Syriaid am 5 mlynedd.

Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi 22 o deuluoedd - 18 o'r Wcráin, 3 o Syria ac 1 o Afghanistan. Mae llawer mwy o deuluoedd wedi cael eu croesawu i Geredigion, ac mae llawer bellach wedi ymgartrefu yma. Mae'r rhai sydd wedi dewis ymgartrefu yma yn cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus fel unrhyw breswylydd arall yng Ngheredigion.

Mae 450 o bobl Wcráin yn dal i fyw yn y 10 safle llety cychwynnol sy'n parhau i fod ar agor yng Nghymru. Mae yna gynllun Cymru gyfan i ddod o hyd i lety parhaol iddynt. Mae Ceredigion wedi ymrwymo i ddarparu llety i 64 o bobl ond dim ond 21 sydd wedi'u croesawi hyd yn hyn. Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd eisiau symud i dref neu ddinas fawr ac i'r sector rhentu preifat. Fodd bynnag, rydym yn parhau i groesawu nifer bychain o fobl Wcráin, rhai yn uniongyrchol o'r Wcráin a rhai o ardaloedd eraill ledled y DU. Maent yn hapus gyda'r trefniadau cynnal 'Cartrefi i'r Wcráin'.

Caeodd gwestai oedd yn croesawu ffoaduriaid o Afghanistan yn ystod yr haf, ac roedd y broses yn gymharol esmwyth. Dywedodd Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru mai dim ond 4 teulu yng Nghymru oedd yn methu dod o hyd i lety ar gyfer symud ymlaen, a cawsant eu cyfeirio at Dîm Digartrefedd eu Hawdurdod Lleol.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi rhoi fisas i deuluoedd Afghanistan a ffodd i Bacistan. Maent yn cyrraedd y DU ar hyn o bryd a byddant yn cael eu cynnal yn eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Roedd 2 deulu o Afghanistan wedi ailsefydlu i Geredigion ym mis Rhagfyr 2021 ac Ebrill 2022. Yn anffodus, daeth 1 o'r teuluoedd yn ddigartref oherwydd bod angen i'w landlord werthu'r tŷ. Fe'u cefnogwyd gan ein Tîm Digartrefedd i lety brys ond ers hynny maent wedi symud i Ogledd Cymru lle mae ganddynt deulu.

Mae cynllun Ailsefydlu'r DU yn parhau i redeg ond nid ydym wedi gallu cynnig eiddo i gartrefu unrhyw deuluoedd ers mis Ebrill 2022 oherwydd y

| |
|---|
| diffyg tai fforddiadwy yn y sector rhentu preifat, a'r bwlch rhwng rhenti lleol a'r Lwfans Tai Lleol. Mae'r rhwystr hwn yn cael ei godi'n barhaus gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.<br><br>Ers mis Chwefror 2023, mae 6 teulu o ffoaduriaid wedi bod yn ddigartref, neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae gan bob un o'r teuluoedd blant. Ar hyn o bryd mae 8 teulu mewn llety dros dro brys.<br><br>Mae Coleg Ceredigion ac Addysg Oedolion Cymru yn parhau i gynnig dosbarthiadau Saesneg i oedolion, ac mae Dysgu Bro yn cynnig dosbarthiadau Cymraeg. Mae cymryd rhan, a datblygiad iaith, yn amrywio gyda phob unigolyn. Mae rhai o'r ffoaduriaid wedi dod o hyd i waith, gyda chefnogaeth ein cydweithwyr yn Adran Gwaith a Phensiynau. Fodd bynnag, mae llawer sydd wedi dod o hyd i waith yn cael eu tangyflogi, a byddent yn elwa o ddosbarthiadau iaith sy'n canolbwyntio ar eu harbenigedd penodol.<br><br>Mae tîm Allgymorth Cymunedol Hywel Dda yn parhau i sicrhau bod teuluoedd yn gwybod am y gwasanaethau iechyd sydd ar gael iddynt a'u bod yn gallu cael mynediad atynt.<br><br>Gwnaeth grŵp o swyddogion perthnasol gyfarfod â'n swyddog ClearSprings Ready Homes lleol i baratoi ar gyfer dyfodiad un teulu sy'n ceisio lloches. ClearSprings Ready Homes yw'r prif ddarparwr cymorth, ond daw'r gefnogaeth hon i ben pan fydd y teulu'n derbyn penderfyniad ar eu cais am loches. Mae'r gwasanaethau cyhoeddus lleol i fod yn rhan o'r broses hon gan y byddwn yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau os yw'r teulu'n cael canlyniad cadarnhaol, yn cael statws ffoadur ac yn penderfynu aros yn yr ardal hon. |
| Goblygiadau Ariannol |
| Mae cyllid allanol yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r costau a ysgwyddir gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei ad-dalu o ran rhai, ond nid pob un, o'r cynlluniau adsefydlu. |
| Argymhellion |
| Bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi cynnydd cynlluniau Ailsefydlu Ffoaduriaid yng Ngheredigion ac yn parhau i gefnogi gwaith yr is-grŵp. |
| Atodiadau |
| Dim |
| Swyddog Adrodd |
| Cathryn Morgan |